

MEMORANDWM GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL: DATGANOLI, CYMRU

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009

Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Drafft ynghlŷn â'r Gymraeg

Rhagarweiniad

1. Mae'r Memorandwm hwn yn gosod y cefndir i'r darpariaethau yn y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Drafft gan y Llywodraeth, sef: Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009 ("yr LCO Drafft") sy'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac sydd wedi'i osod gerbron yn unol â RhS 22.31. Gosodir y Memorandwm hwn gerbron yn unol â RhS 22.32 ac mae'n esbonio cwmpas y pŵer y gwneir cais amdano.
2. Ceir cyd-destun cyfansoddiadol y cais hwn yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") a pholisi Llywodraeth y DU, sydd wedi'i gynnwys yn y Papur Gwyn "Trefn Lywodraethu Well i Gymru". Mae adran 95 o Ddeddf 2006 yn rhoi pŵer i'w Mawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, i roi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu drwy Fesur Cynulliad ar faterion penodedig. Caniateir i faterion hyn gael eu hychwanegu at y meysydd o fewn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Caiff Mesurau

Cynulliad wneud unrhyw ddarpariaeth y gellid ei gwneud drwy Ddeddf Seneddol, o ran materion, yn ddarostyngedig i'r terfynau y darperir ar eu cyfer yn Neddf 2006. Cyfeirir at Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan Adran 95 o Ddeddf 2006 fel Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ("LCO") yn y Memorandwm hwn.

3. Mae'r LCO Drafft yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i'r Cynulliad, ym maes y Gymraeg (Maes 20 o fewn Atodlen 5 i Ddeddf 2006). Bydd pwerau deddfwriaethol newydd ynghylch y materion penodedig yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru, Aelodau'r Cynulliad a Phwyllgorau'r Cynulliad i ddwyn cynigion gerbron ar gyfer deddfwriaeth, ar ffurf Mesurau. Bydd y Mesurau hyn yn destun craffu trylwyr a chymeradwyaeth gan y Cynulliad.

Y cyd-destun

4. Mae'r Gymraeg yn un o'r nodweddion sy'n hynodi treftadaeth ddiwylliannol y DU ac mae'n rhan hanfodol o fywydau pob dydd siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Yn ôl cyfrifiad 2001 mae dros 580,000 o bobl – un allan o bob pump o bobl yng Nghymru – bellach yn siarad ac yn defnyddio'r iaith. Mae hyn yn golygu bod cynnydd bach ar y ffigurau blaenorol, ar ôl mwy na chanrif o ddirywiad. Er hynny, er bod yr iaith wedi bod drwy gyfnod tebyg i adfywiad dros y blynyddoedd diweddar, mae ei statws fel iaith fyw yn ein cymunedau yn dal o dan fgythiad. Derbynnir yn gyffredinol fod y camau sy'n cael eu cymryd gan asiantaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol – ynghyd â thwf addysg drwy gyfrwng y Gymraeg – yn gallu chwarae rhan allweddol i sicrhau ei lles a'i bywioldeb.

Y fframwaith deddfwriaethol cyfredol

5. Mae Llywodraethau olynol y DU wedi cydnabod bod gan ddeddfwriaeth ran i'w chwarae yn y broses o hybu a hwyluso'r defnydd ar y Gymraeg. Rhoes Deddf Llysoedd Cymru 1942 hawliau cyfyngedig i unrhyw barti neu dyst i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd yng Nghymru lle byddai person fel arall o dan anfantais am mai'r Gymraeg oedd yr iaith naturiol iddo ei defnyddio i gyfathrebu. Rhoes Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 hawl absoliwt i unrhyw barti, tyst neu berson arall i ddefnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd (ar yr amod bod hysbysiad yn cael ei roi ymlaen llaw), a phŵer hefyd i Weinidogion ragnodi fersiynau Cymraeg neu ddwyieithog o ffurflenni statudol.
6. Y statudau mwyaf diweddar a sylweddol o ran yr iaith yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("Deddf 1993") a Deddf 2006 (sy'n cynnwys darpariaeth ynglŷn â'r defnydd ar y Gymraeg gan y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru). Mae Deddf 1993 wedi'i seilio ar ddwy egwyddor - yr angen i hybu a hwyluso'r defnydd ar y Gymraeg a thrin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb.
7. Sefydlodd Deddf 1993 Fwrdd yr Iaith Gymraeg, y mae swyddogaeth hybu a hwyluso'r defnydd ar y Gymraeg wedi'i rhoi iddo. Mae Deddf 1993 yn rhestru categorïau penodol o bersonau y gall y Bwrdd ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi cynlluniau iaith Gymraeg – ac mae'n rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i ychwanegu personau pellach at y rhestr, drwy orchymyn, pan fo'n ymddangos iddynt bod y personau hynny yn cwrdd â'r meini prawf yn Deddf 1993.
8. Mae Deddf 1993 yn rhoi pwerau hefyd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i ymchwilio i honiadau bod cyrff cyhoeddus wedi torri ar eu priod gynlluniau iaith Gymraeg, ac yn ei gwneud yn ofynnol iddo gyflwyno adroddiad am ei

ymchwiliadau. Er hynny, nid oes gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg unrhyw bŵer i'w gwneud yn ofynnol i bersonau ddarparu iddo dystiolaeth a gwybodaeth a fydd o gymorth iddo yn ei ymchwiliadau.

9. Mae'r rhan fwyaf o swyddogaethau o dan Ddeddf 1993 yn nwylo Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac y mae ei weithgareddau'n cael eu cyfarwyddo drwy lythyr cylch gwaith oddi wrth y Gweinidog Cymru perthnasol. Mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf 1993 yn gyfyngedig ac cynnwys pŵer i benodi aelodau o Fwrdd yr Iaith Gymraeg – a phŵer i ddyfarnu pan fo Bwrdd yr Iaith Gymraeg a 'chyrff cyhoeddus' yn methu â dod i gytundeb ar faterion sy'n ymwneud â chynlluniau iaith Gymraeg, yn ogystal â phŵer i ychwanegu at y rhestr o 'gyrff cyhoeddus' y gall fod yn ofynnol iddynt lunio'r cynlluniau iaith Gymraeg y cyfeiriwyd atynt uchod.
10. Mae adran 78 o Ddeddf 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i fabwysiadu strategaeth ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd ar y Gymraeg – ac i fabwysiadu cynllun iaith Gymraeg. O dan adran 61(k) o Ddeddf 2006, caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth sy'n briodol yn eu barn hwy i gefnogi'r Gymraeg (er nad yw hyn yn ymestyn i gynnig neu wneud deddfwriaeth).
11. Yn yr un modd, nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r Gymraeg y byddai'n gallu ei ddefnyddio i newid y fframwaith deddfwriaethol y mae Gweinidogion Cymru yn gweithredu oddi mewn iddo. O ganlyniad, nid yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu deddfu i ymateb yn uniongyrchol i anghenion ac amgylchiadau sy'n newid.

Sail resymegol

12. Prif ddiben yr LCO Drafft, felly, yw rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r cymhwysedd yn adlewyrchu'r swyddogaethau gweithredol sydd eisoes wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru – a'r un pryd yn adlewyrchu hefyd swyddogaethau Gweinidogion Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Ddeddf 1993, ac yn achos Gweinidogion Cymru, o dan Ddeddf 2006. Yn ychwanegol at yr angen i ddatganoli cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dwyn ymlaen yr LCO Drafft hwn er mwyn iddi allu cynnig deddfwriaeth i'r Cynulliad a fyddai cyflawni ei pholisïau yn well ac yn mynd i'r afael â'r cyfyngiadau a'r diffygion yn y fframwaith deddfwriaethol cyfredol.

13. Yng Nghynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru Ddwylieithog, *Iaith Pawb* (2003), dywedodd Llywodraeth y Cynulliad ei bod am i Gymru fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog. Nid yw hyn wedi'i ddiffinio i awgrymu y dylai pawb yng Nghymru allu siarad Cymraeg a Saesneg. Fe'i diffiniwyd fel gwlad lle gall pobl ddewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, a lle mae presenoldeb y ddwy iaith yn ffynhonnell balchder a chryfder sy'n weladwy a chlywadwy. Mae *Iaith Pawb* yn adlewyrchu'r hyn a fu'n bolisi gan Lywodraethau olynol - ar lefel Cymru ac ar lefel y DU – i gefnogi a hyrwyddo'r defnydd ar yr iaith ym mhob agwedd ar fywyd yng Nghymru. Mae cwmpas yr LCO Drafft yn adlewyrchu'r dull hwn o weithredu, er mwyn sicrhau y gall yr iaith barhau i fod yn rhan amlwg a byw o fywydau pob dydd pobl.

14. Mae'r LCO Drafft yn rhoi cymhwysedd i alluogi'r Cynulliad i adeiladu ar lwyddiannau Llywodraethau olynol, i diweddarau'r fframwaith

deddfwriaethol er mwyn mynd i'r afael â diffygion penodol sydd wedi dod i'r amlwg er 1993 – ac i ymateb i newidiadau yn y dyfodol.

15. Llwyddwyd i wneud llawer o dan nawdd Deddf 1993 i wella ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i siaradwyr Cymraeg ond mae lle o hyd i wella'r fframwaith deddfwriaethol y mae darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio odano ac i egluro wrth siaradwyr Cymraeg ba lefel o wasanaeth y gallant ddisgwyl ei chael. Mae hyn yn cydymffurfio ag ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i fodel gwella gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'i ganolbwyntio ar y dinesydd. Yn sgil yr argymhellion yn adolygiad Syr Jeremy Beecham, sef *Review of Local Service Delivery* (2006), mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n buddsoddi mewn rhaglen weithredu i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus sy'n effeithlon, effeithiol ac wedi'u canolbwyntio ar y dinesydd.

16. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod y gall aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru wynebu anghysondebau ac anawsterau o hyd wrth geisio cael gafael ar wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn llawer o ardaloedd, mae'r trefniadau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru wedi newid er 1993. Serch hynny, nid yw'r fframwaith a osodwyd gan Ddeddf 1993 yn ei gwneud hi'n bosibl i'r newidiadau hyn gael eu cymryd i ystyriaeth mewn ffordd gyson.

17. Mae angen am fwy o eglurder wedi codi'n rhannol, felly, o newidiadau i strwythur rhai gwasanaethau cyhoeddus allweddol – a ffyrdd newydd o gyflenwi gwasanaethau. O ganlyniad mae wyneb cyhoeddus rhai sectorau a gwasanaethau allweddol penodol yn syrthio y tu allan i gwmpas Deddf 1993. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i bennu rhai personau o'r tu mewn i'r sectorau hyn o dan Ddeddf 1993, ond nid pob un o'r personau hynny. Mae hyn yn creu'r posibilrwydd y bydd amodau anghyson yn y

sectorau hyn ac ansicrwydd ynglŷn â'r gwasanaethau y gall cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg ddisgwyl eu cael.

18. Ar ben hynny, dim ond un mecanwaith ffurfiol ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri ar gynlluniau iaith Gymraeg y mae Deddf 1993 yn ei ddarparu ac nid yw'n darparu ar gyfer unrhyw ddewisiadau amgen graddedig. Efallai na fydd un mecanwaith ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri ar ymrwymadau a wnaed mewn cynlluniau iaith Gymraeg, neu a wnaed o dan unrhyw drefniadau eraill, yn briodol ym mhob achos, a hwyrach na fydd yn sicrhau'r canlyniadau sy'n iawn i bob defnyddiwr.

19. Mae'n egwyddor allweddol y dylai dinasyddion ddeall yn glir beth yw lefel y gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg y gallant ddisgwyl eu cael, ni waeth pwy yw'r darparydd cyhoeddus. Byddai'r cymhwysedd a roddir gan yr LCO Drafft yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ystyried deddfu i ddarparu sail gyson ar gyfer cael gafael ar wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, byddai gan Adrannau'r Llywodraeth sy'n gyfrifol am wasanaethau nad ydynt wedi'u datganoli gyfraniad hollbwysig i'w wneud. Mae asiantaethau megis Canolfannau Gwaith, Tollau Cartref a Thramor Ei Mawrhydi, a'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau wedi bod ar flaen y gad ym maes datblygu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg hyd yn hyn – a bydd yn bwysig sicrhau bod eu cyfraniad yn parhau.

20. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i dwf yr iaith ac yn credu bod rhyddid personau sy'n dymuno siarad Cymraeg â'i gilydd yn rhan annatod o'r twf hwnnw. Mae'r angen i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu teimlo'n hyderus i siarad yr iaith â'i gilydd yn hollbwysig. Er bod pobl eisoes yn mwynhau'r rhyddid i gyfathrebu â'i gilydd yn Gymraeg, nid yw'r rhyddid hwnnw wedi'i ddiogelu i raddau digonol yn y gyfraith.

21. Os yw'r iaith i gael ei gwarchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n credu y dylai fod modd diogelu rhyddid pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru i gyfathrebu â'i gilydd yn Gymraeg. Gan hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n credu bod Mater 20.2 yn angenrheidiol er mwyn galluogi camau i gael eu cymryd drwy Fesur dilynol i ddiogelu'r rhyddid hwn.

Ymrwymadau *Cymru'n Un* ac amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru

22. Un o ymrwymadau allweddol *Cymru'n Un*, rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cynulliad Cymru, yw ceisio cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnig Mesur Cynulliad a fyddai'n cadarnhau statws swyddogol i'r Gymraeg a'r Saesneg, hawliau ieithyddol ym maes darparu gwasanaethau a sefydlu swydd Comisiynydd Iaith. Cyhoeddwyd felly y byddai LCO ynglŷn â'r Gymraeg yn natganiad blynyddol cyntaf Prif Weinidog Cymru ar y rhaglen ddeddfwriaethol ym Mehefin 2007.

23. Er mwyn ategu ffocws Llywodraeth Cynulliad Cymru ar wasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, bydd y cymhwysedd a roddir gan yr LCO Drafft yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnig ymagwedd hyblyg at ddarpariaeth Gymraeg, a fyddai'n caniatáu iddo ddatblygu fframwaith o amgylch darpariaeth ddeddfwriaethol y gellir ei addasu yn ôl amgylchiadau sectorau penodol, y gwasanaethau y maent yn eu darparu a'r meysydd y maent yn gweithredu ynddynt. Er enghraifft, efallai y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno cynnig dyletswyddau mewn cysylltiad â'r cyn gyfleustodau sy'n wahanol i'r rhai ar gyfer y sector ffonau symudol.

24. Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru na ddylai Mesurau dilynol osod dyletswyddau ar sefydliadau oni fyddai gwneud hynny o fudd amlwg

i'r cyhoedd. Ni fwriedir gosod rhwymedigaethau anghymesur ar unrhyw sefydliad.

25. Byddai hyn yn adlewyrchu egwyddorion cyfredol Deddf 1993, drwy'r rhain caiff Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus baratoi cynlluniau iaith Gymraeg sy'n nodi sut y byddant yn gweithredu, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb. I'r perwyl hwn, er enghraifft, mae arferion cyfredol y Bwrdd yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'n disgwyl i gyrff cyhoeddus sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru gyflogi staff sy'n siarad Cymraeg (tra bo disgwyl i gyrff cyhoeddus sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ystyried, er enghraifft, yr angen i gyflogi siaradwyr Cymraeg wrth iddynt recriwtio). Mae'r Bwrdd yn cadw mewn cof hefyd faterion megis maint a lleoliad sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru wrth benderfynu i ba raddau y gallant gyflwyno gwasanaethau yn Gymraeg. Enghraifft o hyn yw ei dri gwahanol dempled i gynghorau cymuned ar gyfer cynlluniau iaith Gymraeg, sy'n adlewyrchu natur ieithyddol wahanol cymunedau yng Nghymru, gan adlewyrchu hefyd ystod gyfyngedig y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y cynghorau hynny.

26. Bydd y gallu i herio gosod dyletswyddau ar sail rhesymoldeb a chymesuredd (gweler paragraff 32) yn rhoi i sefydliadau, megis busnesau bach er enghraifft (a allai gynnwys cyrff hyfforddi bach a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau is-swyddfeydd post) a busnesau eraill, megis y cwmnïau ffonau symudol, amddiffyniad ychwanegol yn hyn o beth. Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y byddai unrhyw fecanwaith apelio ar gyfer herio dyletswyddau yn briodol annibynnol a diduedd.

27. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn credu hefyd y dylai unrhyw drefniadau apelio fod yn hawdd i'w deall ac i'w gweithredu – ac y dylent ganiatáu ar gyfer dulliau priodol i ymdrin â chwynion a mynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder.

Cwmpas

28. Mae'r LCO Drafft yn mewnosod ym Maes 20 (Y Gymraeg) yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i alluogi'r Cynulliad i ystyried deddfu ar y materion hyn drwy gyfrwng Mesur Cynulliad.

29. Mae Erthygl 3 o'r LCO Drafft yn mewnosod Mater 20.1 newydd ym Maes 20. Mae'r mater hwn yn adlewyrchu'r egwyddorion sydd wrth wraidd Deddf 1993 ac yn adeiladu ar yr egwyddorion hynny, sef hybu a hwyluso'r defnydd ar yr iaith Gymraeg; a thrin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys marchnata, rhoi cymorth i sefydliadau a datblygu offer TGCh o fewn unrhyw sector penodol, gan adlewyrchu ystod y swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

30. Nid yw'r mater hwn yn rhychwantu defnyddio'r iaith Gymraeg yn y llysoedd. Mae'r swyddogaethau perthnasol sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd o dan Ddeddf 1993 yn cael eu harfer ar hyn o bryd gan yr Arglwydd Ganghellor, ac nid yw'r LCO Drafft yn ceisio cymhwysedd i newid y sefyllfa.

31. Mae Mater 20.1 yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ystyried deddfu mewn perthynas â Chymru i osod dyletswyddau ar bersonau sy'n dod o fewn y categorïau a restrir ym mharagraffau (a) i (j), yn ei gwneud yn ofynnol, er

enghraifft, i wasanaethau penodol gael eu darparu'n ddwyieithog i'r cyhoedd. Ni fyddai'r Cynulliad yn cael gosod dyletswyddau o dan y mater hwn ar bersonau nad ydynt yn dod o fewn y categorïau hyn. Mae gan y Cynulliad bŵer eisoes (o dan adran 94(5) o Ddeddf 2006) i ddarparu ar gyfer gorfodi darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad neu i'w gwneud yn effeithiol mewn modd arall, fel y bo'n briodol, gan mai o dan y ddarpariaeth hon sy'n bodoli eisoes, ynghyd â Mater 20.1, a/neu 20.2, y byddai unrhyw weithdrefnau gorfodi mewn perthynas â dyletswyddau iaith Gymraeg yn cael eu sefydlu.

32. Mae Mater 20.1 yn destun cyfyngiad ychwanegol, yn yr ystyr mai dim ond os oes rhyw fodd (megis adolygiad neu weithdrefn apelio) y gall person ei ddefnyddio i herio rhesymoldeb a chymesuredd y dyletswyddau sy'n gymwys iddo y caiff y Cynulliad osod dyletswyddau ar y person hwnnw.
33. Mae Mater 20.1 yn diffinio'r categorïau o bersonau y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gallu ystyried deddfu i osod dyletswyddau ar eu cyfer mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r categorïau o bersonau sydd wedi'u rhestru o dan Fater 20.1 wedi'u llunio i gynnwys personau sydd ar hyn o bryd yn dod o fewn cwmpas adran 6(1) o Ddeddf 1993 a sectorau penodol sy'n dod y tu allan i gwmpas y Ddeddf honno ar hyn o bryd ond sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol. Mae'r categorïau yn rhoi cyfle i'r Cynulliad ymdrin â newidiadau mewn seilwaith ac i ddarparu amodau cyfartal mewn sectorau penodedig. Pwnc i Fesurau Cynulliad a gynigir yn y dyfodol ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Mesurau hynny fydd pennu'r personau y gosodir neu y gellir gosod dyletswyddau arnynt.
34. Mae paragraff (a) yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ystyried deddfu drwy Fesur i osod dyletswyddau ar 'awdurdodau cyhoeddus'. Mae 'awdurdodau cyhoeddus' yn cynnwys pob awdurdod cyhoeddus o fewn ystyr Deddf

Hawliau Dynol 1998, sef awdurdodau megis awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Mae diffiniad tebyg wedi'i ddefnyddio mewn nifer o statudau'r DU, gan gynnwys Deddf Gwrth-derfysgaeth, Troseddu a Diogelwch 2001, Deddf Newid Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy 2006 a Deddf Cardiau Adnabod 2006. Yn ychwanegol, mae mecanwaith tebyg eisoes wedi'i ddefnyddio yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008 (O.S. 2008/3132).

35. Pan fo awdurdodau cyhoeddus yn allanoli gwaith cyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd, bydd y Cynulliad yn gallu ystyried deddfu o dan baragraff (b) i osod dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg ar contractwyr, ond dim ond yn gysylltiedig â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu mewn perthynas â Chymru o dan y trefniadau allanoli. Ni allai unrhyw Fesur yn y dyfodol osod dyletswyddau, felly, ynglŷn â'r Gymraeg mewn perthynas ag unrhyw rai o weithgareddau eraill contractiwr (oni fyddai'r contractiwr yn dod o dan baragraffau (a) i (i) am resymau eraill).
36. Mae paragraff (b) wedi'i seilio ar y disgrisiwn a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol (disgrisiwn sydd bellach wedi'i drosglwyddo i Weinidogion Cymru) o dan baragraff 6(1)(o)(ii) o Ddeddf 1993 i bennu'n gyrrff cyhoeddus bersonau sy'n cyflawni gweithgareddau a wneir o dan gytundeb neu'n unol â threfniadau a wneir gyda chorff cyhoeddus neu weision neu asiantau'r Goron.
37. Mae paragraff (c) yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ystyried deddfu i osod dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg ar bersonau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sydd wedi'u sefydlu drwy ddeddfiad (er enghraifft, y Gronfa Loteri Fawr, y Comisiwn Etholiadol ac S4C).

38. Mae paragraff (d) yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ystyried deddfu i osod ar bersonau ddyletswyddau sydd wedi'u sefydlu drwy offeryn uchelfreiniol (megis Siarter Frenhinol) pan fônt yn dod o fewn un neu fwy o is-baragraffau (i) i (v). Personau yw'r rhain:

- (i) sydd wedi'u sefydlu i hyrwyddo dysgu a gwybodaeth drwy addysgu neu ymchwilio neu drwy ddatblygu neu ddyfarnu cymwysterau. Mae enghreifftiau o bersonau yn y categori hwn yn cynnwys Prifysgol Cymru a'r Brifysgol Agored;
- (ii) sydd wedi'u sefydlu i gasglu neu ddiogelu neu ddarparu mynediad i wybodaeth gofnodedig neu wrthrychau a phethau sy'n hybu dealltwriaeth, er enghraifft Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- (iii) sydd wedi'u sefydlu i gefnogi, gwella, hybu neu ddarparu mynediad i dreftadaeth, diwylliant, chwaraeon neu weithgareddau hamdden, er enghraifft Cyngor Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru;
- (iv) sy'n ymgymryd â hybu gwybodaeth ehangach am Gymru a chynrychioli buddiannau Cymru mewn gwledydd eraill, megis y Cyngor Prydeinig; a
- (v) sy'n ymgymryd â bancio canolog, er enghraifft Banc Lloegr.

39. Mae'r holl bersonau a grybwyllwyd fel enghreifftiau ym mharagraff 38 yn gyrrff cyhoeddus at ddibenion Deddf 1993.

40. Mae paragraff (e) yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ystyried deddfu i osod dyletswyddau ar bersonau y mae swyddogaethau darparu gwasanaethau i'r cyhoedd wedi'u rhoi iddynt neu wedi'u gosod arnynt drwy ddeddfiad. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Llais Defnyddwyr a Buddsoddwyr mewn Pobl y DU. Mae swyddogaethau ('*functions*') yn derm sydd wedi'i ddiffinio yn Neddf 2006 i gwmpasu

pwerau a dyletswyddau. Yr egwyddor y tu ôl i hyn yw mai'r unig bersonau sy'n dod o fewn y cymhwysedd y darperir ar ei gyfer ym mharagraff (e) yw'r rhai y mae deddfwriaeth wedi rhoi swyddogaethau iddynt o ran darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Dim ond mewn perthynas â phersonau a chanddynt swyddogaethau mewn perthynas â Chymru y bydd y cymhwysedd yn ymestyn i ddeddfu.

41. Mae paragraff (f) yn rhoi i'r Cynulliad gymhwysedd i ystyried deddfu i osod gofynion o ran y Gymraeg ar bersonau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn arian cyhoeddus y mae ei swm yn cyrraedd trothwy, neu'n mynd dros ben trothwy, o £400,000 mewn blwyddyn ariannol, a hwnnw'n swm a ddarparwyd yn uniongyrchol gan y Cynulliad, Gweinidogion Cymru, Senedd y DU, Gweinidogion y Goron neu un o sefydliadau'r Cymunedau Ewropeaidd, neu'n anuniongyrchol gan neu oddi wrth y cyrff hyn (er enghraifft, drwy awdurdodau lleol neu Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad). Yr egwyddor sylfaenol ym mhob un o'r achosion hyn yw y dylai personau sy'n cael budd o gronfeydd cyhoeddus sylweddol gyflawni cyfrifoldebau cyhoeddus. Mae personau sydd o fewn y cymhwysedd y darperir ar ei gyfer gan baragraff (f) yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, Opera Cenedlaethol Cymru, Fforwm a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

42. Byddai paragraff (f) hefyd yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ystyried deddfu i osod gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg ar bersonau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn arian cyhoeddus y mae ei swm yn cyrraedd, neu'n mynd dros ben, trothwy o £400,000, mewn blwyddyn ariannol, a'r arian hwnnw wedi ei ddarparu yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad, er enghraifft, y BBC, sy'n cael arian drwy ffioedd trwydded o dan Ddeddf Gyfathrebu 2003 (gweler hefyd baragraff 60 ynghylch darlledu).

43. Nid yw paragraff (f) yn cynnwys personau sy'n derbyn taliadau untro sy'n dod i gyfanswm o £400,000 neu fwy. Dim ond os byddant wedi derbyn arian cyhoeddus hefyd mewn blwyddyn ariannol flaenorol neu fod penderfyniad wedi ei wneud iddynt dderbyn arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol ddilynol y bydd personau, sy'n derbyn arian cyhoeddus ar neu uwchlaw'r trothwy hwn, yn dod o fewn paragraff (f).
44. Ni chaiff personau sy'n cael arian cyhoeddus ar ffurf taliad am wasanaethau neu nwyddau a gyflenwyd ganddynt eu cynnwys o dan baragraff (f) yn rhinwedd y ffaith eu bod wedi cael y symiau arian hynny. Caiff cyrff statudol ar gyfer dosbarthu arian loteri (h.y. y Gronfa Loteri Fawr a chyrrff eraill sy'n dosbarthu arian loteri o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993) eu cynnwys o dan baragraff (f), ond nid derbynwyr grant o arian loteri.
45. Mae paragraff (g) yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ystyried deddfu i osod dyletswyddau ar bersonau sy'n ymwneud â rheoleiddio proffesiwn neu ddiwydiant, neu gylch cyffelyb arall o weithgaredd, mewn perthynas â'u gweithgareddau o ran Cymru. Mae 'cylch cyffelyb arall o weithgaredd' yn cynnwys, er enghraifft, personau sy'n rheoleiddio gallu aelod o'r cyhoedd i ennill bywoliaeth mewn sector penodol, disgyblaeth benodol neu faes gweithgaredd penodol. Bydd personau sy'n dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad o dan baragraff (g) yn cynnwys personau megis y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.
46. Mae paragraff (h) yn galluogi'r Cynulliad i ystyried deddfu mewn perthynas â Chymru i osod gofynion ynglŷn â'r Gymraeg ar ddarparwyr tai cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys cymdeithasau tai.
47. Mae paragraff (i) yn galluogi'r Cynulliad i ystyried deddfu mewn perthynas â Chymru i osod dyletswyddau ar bersonau sy'n darparu i'r cyhoedd

fathau penodol o wasanaethau, yn ogystal â gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hynny. Mae hyn yn cwmpasu gwasanaethau allweddol sy'n cael eu darparu i'r cyhoedd yn ogystal â gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hynny.

48. Mae'r is-baragraffau ym mharagraff (i) yn disgrifio'r gwasanaethau sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Nid yw'r cymhwysedd yn gymwys i bersonau ond pan fônt yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys y cyfleustodau (i) a (ii); gwasanaethau post a swyddfeydd post (iii); gwasanaethau telathrebu (iv); addysg, hyfforddiant (pan fo'r darparwydd yn cael arian cyhoeddus i'w ddarparu) neu gyfarwyddyd gyrfaoedd (gan gynnwys gwasanaethau i annog, galluogi neu gynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaoedd (v); gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd (gan gynnwys cwmnïau cludo teithwyr ar reilffyrdd a chwmnïau cludo teithwyr ar fysiau, Network Rail a gwasanaethau ymholiadau a thocynnau bysiau a rheilffyrdd) (vi); a gwasanaethau i ddatblygu neu ddyfarnu cymwysterau addysgol neu alwedigaethol (gan gynnwys byrddau arholi) (vii).
49. Mae paragraff (i)(i) yn cynnwys cyflenwi a dosbarthu nwy, dŵr neu drydan.
50. Mae paragraff (i)(ii) yn cwmpasu gwasanaethau carthffosiaeth (gan gynnwys gwaredu carthffosiaeth).
51. Mae paragraff (i)(iii) yn cwmpasu gwasanaethau post a swyddfeydd post.
52. Mae paragraff (i)(iv) yn cwmpasu gwasanaethau telathrebu, gan gynnwys telefoni llinell sefydlog a gwasanaethau ffonau symudol. Mae'r term "gwasanaethau telathrebu" wedi'i ddiffinio yn adran ddehongli'r LCO Drafft.

53. Mae paragraff (i)(v) yn cwmpasu gwasanaethau addysg, gwasanaethau hyfforddi neu wasanaethau cyfarwyddyd gyrfaedd, gan gynnwys gwasanaethau i annog, i alluogi neu i gynorthwyo cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyfarwyddyd gyrfaedd. Bydd personau sy'n dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad o dan baragraff (i)(v) yn cynnwys personau megis UCAS, Cynghorau Sgiliau Sector a Gyrfa Cymru. Fel yn achos personau eraill o dan baragraff (i), ni fydd personau sydd yn y sector hwn o fewn cymhwysedd y Cynulliad ond pan fônt yn darparu'r gwasanaethau rhestredig i'r cyhoedd. Er enghraifft, byddai hynny'n cynnwys unrhyw wasanaethau addysg, gwasanaethau hyfforddi neu wasanaethau cyfarwyddyd gyrfaedd i aelodau o'r cyhoedd sy'n cael eu darparu gan golegau addysg bellach neu Yrfa Cymru.
54. Yn ychwanegol, o ran hyfforddiant o dan baragraff (i)(v), yr unig hyfforddiant y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn gallu gosod dyletswyddau mewn perthynas ag ef fyddai hyfforddiant sy'n cael ei gyllido'n gyfan gwbl neu'n rhannol drwy arian cyhoeddus, gan gynnwys yr ystod o fentrau sy'n cael eu cyllido gan y llywodraeth. Ni fyddai darpariaeth hyfforddi nad yw'n cael ei hariannu i ryw raddau ag arian cyhoeddus o fewn cymhwysedd y Cynulliad o dan y paragraff hwn (er enghraifft, cwmnïau sy'n rhoi hyfforddiant i staff cwmni arall, pan fo'r ddarpariaeth honno'n cael ei chyllido'n gyfan gwbl ag arian preifat).
55. Mae paragraff (vi) yn ymdrin â gwasanaethau bysiau a gwasanaethau rheilffyrdd, ac yn cynnwys gwerthu tocynnau, darparu gwybodaeth deithio (megis amserlenni) ac arwyddion.
56. Mae dau amod pwysig sy'n gymwys mewn perthynas â pharagraff (i) ac yn cyfyngu ar gymhwysedd y Cynulliad yn y cyd-destun hwn. Yn gyntaf, dim ond mewn cysylltiad â'r gwasanaethau a grybwyllwyd y byddai'r Cynulliad yn gallu ystyried deddfu i osod dyletswyddau ar ddarparwyr

gwasanaethau, ac wedyn ddim ond pan fo'r gwasanaethau hynny'n cael eu cyflenwi mewn perthynas â Chymru, ac nid mewn cysylltiad â'u swyddogaethau eraill neu eu gweithgareddau eraill (oni fyddant yn dod fel arall o fewn y cymhwysedd a roddwyd i'r Cynulliad gan baragraffau (a) i (h) ac (j)). Yn ail, o ran gwasanaethau cysylltiedig, nid yw'r mater yn cynnwys gwasanaethau cysylltiedig sy'n cael eu darparu o siopau, sydd wedi'u diffinio yn yr LCO Drafft fel "mangre lle y mae'r brif fasnach neu fusnes sy'n cael ei gynnal yn fasnach neu fusnes gwerthu nwyddau", ac eithrio gwerthu tocynnau neu ddarparu amserlenni ar gyfer gwasanaethau bysiau a gwasanaethau rheilffyrdd a gwasanaethau cownteri swyddfeydd post.

57. Yn olaf, mae paragraff (j) o Fater 20.1 yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ystyried deddfu i osod dyletswyddau ar bersonau sy'n gwirfoddoli, neu'n ymrwmo i gytundeb, i'w gwneud eu hunain yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o'r fath. Mae hyn yn darparu bod personau yn medru parhau i ddewis ymuno â chynlluniau iaith Gymraeg neu fecanweithiau dilynol, yn yr un modd i raddau helaeth ag y mae personau yn dewis ymuno â Buddsoddwyr mewn Pobl a safonau eraill o'r fath.
58. Mae Mater 20.1 yn ddarostyngedig i amod pellach. Bydd yn galluogi'r Cynulliad i ddarparu ar gyfer gosod dyletswyddau ar berson ddim ond os oes rhyw fodd (megis adolygiad neu weithdrefn apelio) y gall y person ei ddefnyddio i herio rhesymoldeb a chymesuredd y dyletswyddau fel y bônt yn gymwys iddo. Bydd effaith ymarferol hyn yn golygu y bydd yn rhaid i unrhyw berson sy'n creu neu'n gosod dyletswyddau drwy neu o dan Fesur Cynulliad bwysu a mesur pa mor resymol a chymesur yw ei gynigion.
59. Nid yw'r amod yn gymwys i "awdurdodau Cymraeg" a chanddynt swyddogaethau statudol o ran gosod, gorfodi neu ddyfarnu ynghylch dyletswyddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, neu benderfynu ynghylch

heriau iddynt. Er enghraifft, pe bai Mesur yn ymddiried gwaith goruchwylio dyletswyddau iaith Gymraeg i awdurdod megis Bwrdd yr Iaith Gymraeg neu Gomisiynydd Iaith, ni fyddai'n rhaid i'r Mesur sicrhau y gallai awdurdod o'r fath herio unrhyw ddyletswyddau a oedd yn gymwys iddo ar sail rhesymoldeb neu gymesuredd.

60. Nid yw Mater 20.1 yn galluogi'r Cynulliad i osod dyletswyddau ar ddarlledwyr mewn perthynas â chomisiynu, cynhyrchu, amserlennu, trawsyrru neu ddosbarthu rhaglenni (gan gynnwys hysbysebion, is-deitlau, cyhoeddiadau cyswllt a theletestun), gwasanaethau mynediad, rhyngweithgarwch, deunyddiau sy'n gysylltiedig â rhaglenni, cynnwys ar-lein ac allbwn arall tebyg ei natur ar gyfer y teledu, y radio, y rhyngwrwyd neu lwyfannau ar-lein neu ddi-wifr eraill. Mae hyn yn adlewyrchu'r penderfyniad polisi na ddylai'r Llywodraeth allu effeithio ar ryddid golygyddol darlledwyr.

61. Byddai'r ail fater sydd i'w fewnosod ym Maes 20 drwy'r LCO Drafft (Mater 20.2) yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ystyried deddfu mewn perthynas â rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar ryddid o'r fath, a allai gynnwys, er enghraifft, cyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch os gellid eu cyfiawnhau). Byddai'r mater hwn yn galluogi'r Cynulliad i ystyried deddfu i ddiogelu rhyddid unigolion i gyfathrebu â'i gilydd yn Gymraeg. Mae rhyddid unigolion i gyfathrebu â'i gilydd yn Gymraeg yn rhyddid sy'n bodoli eisoes, ond mae'r amddiffyniad sy'n cael ei gynnig o dan y ddeddfwriaeth gyfredol yn gyfyngedig

62. Bydd y Cynulliad yn gallu ystyried deddfu i'w gwneud yn ofynnol i bersonau barchu'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg, ond ni fydd Mater 20.2 yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu i'w gwneud yn ofynnol iddynt gymryd

camau cadarnhaol i hwyluso'r defnydd ar y Gymraeg rhwng personau sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg â'i gilydd.

Newidiadau i'r LCO Drafft yn sgil craffu cyn deddfu

63. Gosodwyd yr LCO arfaethedig ar 2 Chwefror 2009 a chraffwyd arno gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Phwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Faterion Cymreig. Cyhoeddodd y Pwyllgorau eu hadroddiadau ar 5 Mehefin 2009 a 7 Gorffennaf 2009 yn ôl eu trefn. Ystyriodd yr Uwch-bwyllgor Cymreig y mater ar 14 Hydref 2009.

64. Mae'r paragraffau canlynol yn esbonio'r newidiadau a wnaed i'r LCO arfaethedig er mwyn cymryd i ystyriaeth yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau hyn a newidiadau eraill a wnaed o ganlyniad i'r ymgysylltu â rhanddeiliaid a wnaed gan y ddwy Lywodraeth.

65. Mae manylion y newidiadau hyn fel a ganlyn:

Mater 20:1: Erthygl 3

Rhesymol a chymesur

66. Un o argymhellion allweddol y Pwyllgor ar Faterion Cymreig oedd yr angen am fwy o eglurder a manylrwydd yng ngeiriad yr LCO Drafft. Argymhellodd y Pwyllgor ar Faterion Cymreig y dylai'r LCO arfaethedig gynnwys egwyddorion clir, megis profion rhesymoldeb a chymesuredd, y gellid profi Mesurau'r Cynulliad yn eu herbyn. I bob pwrpas byddai hynny'n golygu dull gweithredu gwahanol o ran diffinio cymhwysedd, a fyddai'n golygu bod angen i Fesur fodloni'r profion a bennwyd yn yr LCO Drafft, yn hytrach na bod yr LCO Drafft yn diffinio pwy y gallai Mesurau dilynol effeithio arnynt.

67. Ar ôl pwyso a mesur yr argymhelliad uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU'n cytuno y dylai'r egwyddor o briodoli dyletswyddau ar waith yn rhesymol ac yn gymesur gael ei hymgorffori yn yr LCO Drafft. Serch hynny, teimlwyd na fyddai rhoi cymhwysedd ar sail egwyddorion a phroffion yn unig yn darparu'r lefel o eglurder yr oeddid yn ei geisio. Er enghraifft, efallai na fyddai'r hyn sy'n rhesymol i un person yn rhesymol i un arall. Yn yr un modd, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno ag argymhelliad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 nad oes angen i'r LCO Drafft gynnwys rhestr o gategoriâu o bersonau y gellid gosod dyletswyddau arnynt ac maent yn meddwl y byddai'n fwy o gymorth petai'r LCO Drafft yn fwy penodol.

68. Mae'r LCO Drafft wedi'i ddiwygio felly i ddarparu bod mater 20.1 yn peidio â chynnwys gosod dyletswyddau ar unrhyw berson (ac eithrio awdurdodau iaith Gymraeg) onid oes modd i'r person hwnnw herio'r dyletswyddau hynny, fel y bônt yn gymwys iddo, ar sail rhesymoldeb a chymesuredd (gweler hefyd baragraffau 32 a 58 o'r memorandwm hwn).

69. Byddai hyn ar waith yn ogystal â'r gofyniad yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad bod asesiad o gostau a manteision tebygol cydymffurfio yn dod gyda Mesurau arfaethedig y Cynulliad.

Paragraffau (c) a (d)

70. Byddai paragraff (c) yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i osod dyletswyddau ar bersonau 'sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac a gafodd eu sefydlu drwy ddeddfiad'; mae'r cymal sy'n ymwneud â phersonau a gafodd eu sefydlu drwy offeryn uchelfreiniol (megis Siarter Frenhinol) wedi'i gynnwys bellach ym mharagraff (d).

71. Nododd y Pwyllgor ar Faterion Cymreig fwriad Llywodraeth y Cynulliad i osod dyletswyddau ar nifer cyfyngedig o bersonau a gafodd eu sefydlu drwy Siarter Frenhinol; mae'r LCO Drafft wedi ei ddiwygio felly i bennu ystod y cyfryw bersonau y caniateir rhoi dyletswyddau iddynt.

72. O ganlyniad, er mwyn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad o dan baragraff (d), rhaid i gyrrff Siarter Frenhinol fodloni'r meini prawf ychwanegol y darperir ar eu cyfer o dan baragraff (d)(i) i (v).

Paragraff (f)

73. Mae paragraff (f) yn dod â phersonau, sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn arian cyhoeddus, o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae'r trothwy wedi ei godi o £200,000 i £400,000 i hepgor o gymhwysedd y Cynulliad lawer o gyrrff bach a chanolig sy'n derbyn arian cyhoeddus, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn y sector cymunedol a'r sector gwirfoddol. Mae'r trothwy newydd wedi ei osod ar lefel a fydd yn peri i'r personau hynny y mae'r cymal hwn wedi ei fwriadu ar eu cyfer (gweler paragraff 41) gael eu dwyn i mewn i gymhwysedd y Cynulliad.

74. Cafodd yr egwyddor y dylai personau sy'n cael budd o gronfeydd cyhoeddus sylweddol ddod o fewn cwrpas yr LCO Drafft ei derbyn gan y Pwyllgor ar Faterion Cymreig a Phwyllgor Deddfwriaethol Rhif 5 fel un priodol, er bod y syniad o gynnwys trothwy yn yr LCO Drafft, a'r swm a osodwyd ar gyfer y trothwy (sef cyllid cyhoeddus o £200,000 neu fwy mewn blwyddyn ariannol), wedi denu beirniadaeth yn ystod y broses graffu. Er hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno i osod ffin eglur er mwyn diffinio'r hyn a ystyrir yn gyllid cyhoeddus "sylweddol". Ar ôl pwysu a mesur gofalus, mae'r trothwy wedi ei godi i £400,000 – gan sicrhau felly y byddai sefydliadau bach yn llai tebygol o gael eu cynnwys yng nghwrpas yr LCO Drafft yn rhinwedd y

cyllid cyhoeddus y maent yn ei derbyn. Serch hynny, bydd gosod y swm hwn fel y trothwy yn sicrhau bod personau penodol, megis Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, yn dod o fewn cwmpas yr LCO Drafft.

75. Argymhellodd y Pwyllgor ar Faterion Cymreig y dylid ailddrafftio'r paragraff i sicrhau na fyddai personau sy'n derbyn taliadau untro yn cael eu cynnwys. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei dderbyn, fel a ddisgrifiwyd ym mharagraff 43 uchod. Bydd hyn yn sicrhau na fyddai modd i ddyletswyddau gael eu priodoli i sefydliadau am yr unig reswm eu bod wedi cael grant untro.

76. Gofynnodd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 i gyllid loteri gael ei gynnwys yn y diffiniad o arian cyhoeddus. Mae'r diffiniad yn cynnwys cyllid loteri sy'n cael ei roi ar gael i'r cyrff statudol sy'n dosbarthu arian loteri, gan fod hyn yn arian "wedi ei ddarparu yn rhinwedd deddfiad". Fel y cyfryw, bydd yn bosibl gosod dyletswyddau ar gyrrff dosbarthu arian loteri. Er hynny, gan fod y rhan hon o'r diffiniad o arian cyhoeddus wedi'i chyfyngu i symiau arian a ddarperir yn uniongyrchol yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad, ni fydd derbynwyr grantiau loteri (sy'n cael symiau arian loteri a ddarperir yn rhinwedd deddfiad ar sail 'anuniongyrchol') yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad yn rhinwedd y ffaith eu bod wedi cael grantiau loteri.

Paragraff (i) – Allfeydd manwerthu

77. Mae'r LCO Drafft wedi'i ailddrafftio i hepgor 'siopau' (fel y diffiniwyd y term hwnnw yn yr LCO Drafft) o 'wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig ag unrhyw un neu ag unrhyw rai o'r gwasanaethau hynny', ar wahân i werthu tocynnau neu ddarparu amserlenni ar gyfer gwasanaethau bysiau a gwasanaethau rheilffyrdd a gwasanaethau cownteri swyddfeydd post. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol mewn cysylltiad â swyddfeydd

post (gan gynnwys is-swyddfeydd post) sy'n ddarostyngedig i gynllun iaith Gymraeg Swyddfa'r Post.

78. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r rhan fwyaf o wasanaethau manwerthu yn dod o fewn cwmnïad Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (er bod y sector manwerthu wedi cymryd camau mawr ymlaen mewn darpariaeth iaith Gymraeg yn y blynyddoedd diweddar o ganlyniad i gynlluniau gwirfoddol). Am resymau tebyg nid yw banciau a chwmnïau yswiriant wedi'u pennu yn yr LCO Drafft.

Paragraff (i)(i) – Cynhyrchu a thrawsyrru

79. Nid oedd y Pwyllgor ar Faterion Cymreig wedi'i ddarbwylllo o'r angen i gynnwys cynhyrchu a thrawsyrru nwy a thrydan yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig. Gan hynny, mae wedi'i gytuno gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylai'r ddau weithgaredd gael eu dileu o'r LCO Drafft.

80. Argymhellodd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 y dylai'r holl wasanaethau ynni (er enghraifft cyflenwyr olew) gael eu cynnwys o fewn cwmnïas yr LCO. Serch hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno i beidio ag estyn y cymhwysedd i gyflenwyr tanwydd o'r fath ar hyn o bryd, gan gydnabod nad yw cyflenwyr olew, er enghraifft, yn ddarostyngedig i'r un lefel o reolaeth statudol â nwy a thrydan, ac nad ydynt yn dibynnu ar rwydwaith na grid a reolir o dan statud er mwyn darparu neu gyflenwi olew i'w cwsmeriaid.

Paragraff (i) (v) – Darparwyr hyfforddiant

81. Mae amod pellach wedi ei gyflwyno mewn perthynas â darpariaeth hyfforddi sy'n golygu mai dim ond hyfforddiant sy'n cael ei gyllido'n gyfan

gwbl neu'n rhannol o arian cyhoeddus a ddaw o fewn cymhwysedd y Cynulliad o dan baragraff (i)(v). Byddai hynny'n sicrhau na fyddai modd priodoli dyletswyddau iaith Gymraeg gan ddibynnu ar y cymhwysedd a nodir ym mharagraff (i)(v) ar gyfer hyfforddiant sy'n cael ei gyllido'n gyfan gwbl gan y sector preifat, a byddai'n amddiffyn, er enghraifft, ddarparwyr hyfforddiant bychan eu maint yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol nad ydynt yn cael unrhyw arian cyhoeddus.

Paragraff (i) (vi) – Bysiau

82. Nododd y ddau bwyllgor fod yr LCO arfaethedig yn mentro creu anghysondebau o ran trafniadaeth gyhoeddus drwy gynnwys gwasanaethau rheilffyrdd yn unig, gan dynnu sylw, a hynny'n gywir, at y ffaith y byddai rhai cwmnïau bysiau yn dod o fewn categorïau eraill, ond nad oedd modd dweud i sicrwydd y câi pob cwmni bysiau ei gynnwys drwy'r dulliau hyn.
83. Mae Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU yn cytuno â'r ddau bwyllgor craffu bod gwasanaethau bysiau yn wasanaethau cyhoeddus allweddol ac y dylid eu cynnwys yn benodol ar wyneb yr LCO Drafft. Mae'r LCO Drafft wedi'i addasu felly fel bod gwasanaethau bysiau a gwasanaethau rheilffordd ill dau yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas y cynhwysedd deddfwriaethol o dan baragraff (i)(vi). Byddai hynny'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ystyried trefnu bod, er enghraifft, arwyddion a gwybodaeth am amserlenni mewn gorsafoedd bysiau ac safleoedd bysiau ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r LCO Drafft yn diffinio'r term 'gwasanaeth bysiau' fel un sy'n hepgor yn benodol wasanaethau siartredig, tripiâu preifat a theithiau trefnedig gan fod angen i wasanaethau bysiau gael eu diffinio'n glir, fel bod gwasanaethau coetsys rheolaidd yn dod o fewn cwmpas y cynhwysedd deddfwriaethol ond nid gwasanaethau sy'n cael eu siartro at ddefnydd preifat. Bydd hyn yn

gweithio ar y cyd â'r mecanwaith herio a ddisgrifiwyd o'r blaen, er mwyn lleiafu'r risg o osod yn anfwriadol feichiau anghymesur ar gwmnïau bysiau.

Eithriadau cyffredinol i Fater 20.1 – Darlledu

84. Er mwyn ymateb i bryderon rhanddeiliaid a'r pwyllgorau, a fynegwyd yn ystod y broses craffu cyn deddfu, mae eithriad i Fater 20.1 wedi'i ddrafftio sy'n golygu na chaiff y Cynulliad osod dyletswyddau ar ddarlledwyr mewn perthynas â chomisiynu, cynhyrchu, amserlennu, darlledu na dosbarthu rhaglenni (gan gynnwys hysbysebion, is-deitlau, cyhoeddiadau cyswllt a theletestun), gwasanaethau mynediad, rhyngweithgarwch, deunyddiau sy'n gysylltiedig â rhaglenni, cynnwys ar-lein ac allbwn arall tebyg ei natur ar gyfer y teledu, y radio, y rhyngrwyd neu lwyfannau ar-lein neu ddi-wifr eraill.

Effaith darpariaethau eraill yn Neddf 2006

85. Mae angen i effaith yr LCO Drafft gael ei hystyried yng nghyd-destun darpariaethau cyflawn Deddf 2006.

Terfynau daearyddol unrhyw Fesur Cynulliad

86. Byddai'r LCO Drafft a darpariaethau Deddf 2006 yn caniatáu i'r Cynulliad ystyried deddfu drwy Fesur ynghylch y defnydd ar y Gymraeg mewn perthynas â Chymru.

87. Mae Erthygl 2 o'r LCO Drafft yn sicrhau, pe bai'r Cynulliad o blaid diddymu unrhyw ddarpariaethau yn Neddf 1993, y byddai rhychwant unrhyw ddiddymiad o'r fath yr un fath â rhychwant y ddarpariaeth wreiddiol. Mae hyn yn caniatáu i'r Cynulliad ddiddymu, drwy Fesur, unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 1993 y mae ei rhychwant yn ymestyn y tu hwnt i'r cymhwysedd a

roddwyd i'r Cynulliad gan Ddeddf 2006 (h.y. pan fo Deddf 1993 yn rhychwantu'r Alban neu Ogledd Iwerddon). Mae'r erthygl hon wedi'i chyfyngu i ddiddymu darpariaethau ac nid yw'n caniatáu i unrhyw ddeddfwriaeth 'newydd' gael ei gwneud. Bydd yn ddarostyngedig, beth bynnag, i'r gofynion, sydd wedi'u nodi yn Neddf 2006, ynghylch ceisio cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol os byddai unrhyw ddiddymiad yn arwain at ddileu neu addasu swyddogaeth sydd gan un o Weinidogion y Goron.

Addasiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

88. Mae Erthygl 4 yn cynnig rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ystyried deddfu drwy Fesur i ddiwygio adrannau 35(1) a 78 o Ddeddf 2006 a pharagraff 8(3) o Atodlen 2 iddi er mwyn gallu deddfu ynglŷn â'i hun, Gweinidogion Cymru neu Gomisiwn y Cynulliad. Byddai hynny'n caniatáu i'r Cynulliad roi'r cyrff hynny ar yr un telerau â phersonau eraill.
89. Mae angen y gallu i ddiwygio'r adrannau hynny er mwyn caniatáu i'r Cynulliad gael hyblygrwydd i osgoi cael system amlhaenog yn y dyfodol; y nod yw darparu i'r defnyddiwr system sydd mor rhwydd ac effeithiol â phosibl. Er enghraifft, mae adran 78 yn dweud bod yn rhaid i Weinidogion Cymru fabwysiadu cynllun iaith Gymraeg. Os byddai'r Cynulliad o blaid deddfu i symud i ffwrdd o gynlluniau iaith Gymraeg, yna heb gymhwysedd i ddiwygio adran 78, Gweinidogion Cymru fyddai'r unig bersonau ar ôl a fyddai'n dal i weithredu o dan yr 'hen' system.

Swyddogaethau Gweinidog y Goron

90. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i gyrff y Goron, gan gynnwys Gweinidogion y Goron, gydymffurfio'n fras â'r un dyletswyddau â phob person arall, pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn

cydsynio â hynny. Bydd hyn yn gofyn am ddiwygiad cyfyngedig i Ddeddf 2006, o ran y Materion 20.1 ac 20.2 arfaethedig yn unig. Byddai'r diwygiad yn caniatáu i'r Cynulliad roi swyddogaethau newydd i Weinidogion y Goron neu eu gosod arnynt, ond dim ond gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, ac nid yn y fath fodd ag i beri i Weinidogion y Goron fod yn agored i gael eu cosbi am dramgwyddau troseddol.

91. Ymrwymodd Gweinidogion y Llywodraeth, yn ystod hynt Deddf 1993, i addewid y byddai cyrff y Goron, gan gynnwys Gweinidogion y Goron, yn paratoi cynlluniau iaith Gymraeg. O ganlyniad, er mwyn caniatáu i'r Cynulliad wneud darpariaethau i briodoli swyddogaethau yn deg ac yn gyson i bob person, mae Erthygl 5 o'r LCO Drafft yn addasu paragraff 7 Rhan 3 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 er mwyn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad ddeddfu i roi swyddogaethau i Weinidogion y Goron mewn perthynas â'r Gymraeg, neu eu gosod arnynt, gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

92. Ar hyn o bryd, mae paragraff 7 Rhan 3 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006 yn caniatáu i ddarpariaeth mewn Mesur Cynulliad ddileu neu addasu swyddogaethau Gweinidog y Goron gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, ond nid oes unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn bodoli i ganiatáu i swyddogaethau gael eu rhoi neu eu gosod. Mae Erthygl 5 o'r LCO Drafft yn atgynhyrchu darpariaethau'r paragraff 7 cyfredol mewn is-baragraff 7(2) newydd, er mwyn caniatáu i ddarpariaeth mewn Mesur Cynulliad yn y dyfodol roi swyddogaethau i Weinidogion y Goron mewn perthynas â Materion 20.1 ac 20.2 neu eu gosod arnynt, gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae angen yr Erthygl hon i roi i'r Cynulliad gymhwysedd i allu atal system amlhaenog rhag bodoli yn y dyfodol, a honno'n system lle byddai Gweinidogion y Goron yn darparu lefel o wasanaeth a fyddai'n wahanol i weddill y sector cyhoeddus. Mae Erthygl 5

yn caniatáu i'r Cynulliad gael hyblygrwydd i allu darparu system gyson a rhwydd ar draws y sector cyhoeddus.

93. Nid yw'r LCO Drafft ynddo'i hun yn ceisio addasu na dileu unrhyw swyddogaethau sydd gan unrhyw Weinidog y Goron. Yn rhinwedd Rhan 2 a Rhan 3 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006, ni chaiff y Cynulliad drwy Fesur newid swyddogaethau un o Weinidogion y Goron heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. O ran unrhyw gynigion yn y dyfodol a all effeithio ar swyddogaethau Gweinidog y Goron, ymgynghorir ag Adrannau priodol Llywodraeth y DU, a cheisir dod i gytundeb ynghylch unrhyw gynigion yn y dyfodol i newid neu addasu'r swyddogaethau hynny.

Y Casgliad

94. Am y rhesymau a amlinellwyd yn y Memorandwm hwn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn bod cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei estyn yn unol â'r darpariaethau yn y Drafft o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009.

Hydref 2009